# Chwarae Cymru

ADRODDIAD EFFAITH
2018 - 2019



# Adroddiad y Cadeirydd

*'Pam wyt ti'n dal i weithio yng Nghymru?'*

Cwestiwn digon diniwed gan gyn-gydweithiwr, er braidd yn bryfoclyd. Roeddwn wedi taro ar ei draws mewn cynhadledd, tua'r adeg yr oeddwn yn ysgrifennu'r adroddiad hwn ar effaith Chwarae Cymru yn ystod y flwyddyn o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019. Ac fe allwn fod wedi dweud wrtho am yr holl ffyrdd y mae'r staff wedi dal i gyflawni eu goblygiadau fel cefnogwyr chwarae yng Nghymru.

Fe allwn i fod wedi dweud wrtho am eu heiriolaeth dros yr angen i chwarae, os yw plant i ddatblygu'n iach – yn gorfforol, seicolegol a chymdeithasol. Gallwn fod wedi dweud wrtho am eu dylanwad ar agweddau rhieni a'r cyhoedd tuag at chwarae mewn cymdeithas sydd ofn risg. Gallwn fod wedi dweud wrtho am y gefnogaeth y maent wedi ei roi i weithwyr chwarae sy'n ei chael yn anodd yn yr hinsawdd anodd yma. Gallwn fod wedi dweud wrtho am yr arweiniad y maent wedi ei gynnig i lunwyr polisïau mewn llywodraeth leol a chanolog. Ac fe ddarllenwch am hyn i gyd yn yr adroddiad hwn.

Fe allwn i fod wedi dangos iddo sut y gallwn fesur yr effaith y mae'r gweithgarwch yma wedi ei gael. Sut y mae datblygiadau hyrwyddol newydd fel gwefan *Plentyndod Chwareus* wedi creu cysylltiadau agosach fyth gyda'r rhieni a'r gofalwyr sy'n edrych ar ôl yr hanner miliwn o blant a phobl ifanc yn eu glasoed yma yng Nghymru. Sut y mae sefydliad allanol fel PQASSO wedi dyfarnu ei asesiad ansawdd gradd un i Chwarae Cymru. A sut y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cwrdd yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn cadw at ein cennad.

Fe allwn i fod wedi ei atgoffa, er gwaethaf ei gyflawniadau na ddylai'r un sefydliad gwerth ei halen sefyll yn ei unfan. Bod Chwarae Cymru wedi chwilio am ffyrdd newydd i atgyfnerthu ei waith ac wedi comisiynu ymchwil i gasglu profiadau personol plant yng Nghymru. Adborth uniongyrchol ar sut y mae cyfleoedd plant i chwarae'n cael eu gwireddu neu beidio, a'r hyn sydd angen ei wneud i warchod eu hawl i chwarae.

Ac yn bennaf oll, gallwn fod wedi profi gwerth yr hyn a ddywedais yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod gwerth gwaith Chwarae Cymru trwy ei gefnogaeth ariannol barhaus. Cefnogaeth i'r sefydliad, a thrwy hynny i chwarae ei hun, wrth inni nesu at ddegfed ar hugain pen-blwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Byddai wedi bod yn anodd iddo gyfeirio at unrhyw wlad arall ble gallai'r Confensiwn hwnnw gael ei ddathlu mor dwymgalon.

Felly diolch i chi, y staff, am bopeth yr ydych wedi'i gyflawni'n ystod y flwyddyn, am bopeth yr ydych yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol, ac am wneud yr ateb i fy nghyn-gydweithiwr mor rhwydd.

*'Pam ydw i'n dal i weithio yng Nghymru? Pam fyddwn i am weithio yn unman arall!'*



Dr Mike Shooter CBE
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

Ers ffurfio Chwarae Cymru yn 1998, rydym wedi ceisio bod, er diffyg term gwell, yn bopeth i bawb – hynny yw darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth i bawb am chwarae a'i bwysigrwydd. Ac, ar sawl cyfrif, rydym yn credu inni fod yn llwyddiannus.

Ond, dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dod yn fwy amlwg fyth bod ein ffocws pennaf ar y bobl hynny yr oedd eu gwaith a'u diddordeb proffesiynol yn golygu eu bod angen y wybodaeth yma am chwarae a'i bwysigrwydd i blant er mwyn cyflawni eu gwaith yn fwy effeithiol – swyddogion y llywodraeth, llunwyr polisïau, gweithwyr chwarae, cynllunwyr, athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol i enwi ond rhai.

Fe sylweddolom ein bod yn methu rhywbeth ac, yn syml, nad oeddem yn cyrraedd ystod eang o bobl oedd wir angen clywed ein neges; pobl oedd ddim yn gwybod amdanom neu fyddai efallai ddim yn ystyried ymweld â'n gwefan fel rhan o'u bywyd bob dydd – rhieni. Fe wawriodd arnom, pan fyddai rhywun yn chwilio am gyngor ar rywbeth i'w wneud gyda'u plant ar ddiwrnod glawog, neu ar daith hir yn y car neu yn ystod gwyliau'r ysgol, y byddai chwilotwyr ar-lein yn eu cyfeirio at ystod gyfyng o opsiynau, a ddarparwyd yn bennaf gan archfarchnadoedd a phapurau newydd. Opsiynau oedd, yn y pen draw, yn golygu gwario arian er mwyn rhoi rhywbeth i'r plant ei wneud.

Fe ŵyr pob un ohonom, o ran y plant, mai rhan fwyaf deniadol aml i anrheg Nadolig ydi'r pecynnu – y bocs y daw'r tegan ynddo – ond fyddwn ni'n ddim yn ystyried y bocs fel offeryn marchnata'n aml iawn. Mae gwefan newydd *Plentyndod Chwareus*, ddatblygwyd gyda chymorth y Transform Foundation, yn anelu i newid hynny. Mae'n anelu i atgoffa pobl sut oedd pethau pan oedd rhan arferol o blentyndod yn golygu creu ein cyfleoedd chwarae ein hunain yn hytrach na'u prynu neu fynd i barc thema.

Cawn wybod ein bod wedi llwyddo i wneud ein neges yn gwbl hygyrch pan fydd *Plentyndod Chwareus* yn ymddangos ar dudalen gyntaf unrhyw chwiliad ar-lein sy'n edrych am rywbeth i'w wneud gyda phlant sydd wedi diflasu.

Yn y cyfamser, ar ein ffordd at y nod yma mae gennym wefan y gobeithiwn sy'n hawdd i'w ddarllen, sy'n egluro i ddarllenwyr am bwysigrwydd diflasu a'r hyn y bydd plant yn ei greu o'r cyfle hwn … chwarae.

O'r cychwyn cyntaf, mae *Plentyndod Chwareus* wedi derbyn croeso gwresog. Mewn ymateb i adborth, rydym yn ychwanegu ato'n rheolaidd a byddwn yn dal ati i wneud hynny. Fe ddylwn nodi ein bod hefyd wedi parhau i ddarparu'r ystod o wasanaethau arferol, y cyfan yw hwn yw llinyn arall yn y bwa.



Mike Greenaway
Cyfarwyddwr Chwarae Cymru

# Cynnwys


2018 - 2019 yn gryno 5

Am Chwarae Cymru 6

Cyflawniadau
- Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol 7
- Ymgysylltu 8
- Cyhoeddiadau 9
- Gweithwyr proffesiynol hyddysg 10
- Ymholiadau gan y cyhoedd 12
- Sicrwydd ansawdd 12
- Cydweithredu'n lleol a chenedlaethol 12
- Cynulleidfaoedd newydd 14
- Partneriaid 15

Aelodaeth 16

Cyflawniadau: 1998 - 2019 18

Adolygiad ariannol – crynodeb 20

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2019 - 2020 21

Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru 22

Tîm Chwarae Cymru 22




# 2018 - 2019 yn gryno

**135,000**
**ymweliad i'r wefan**

**93**
**aelod Chwarae Cymru**

Trosglwyddwyd cymwysterau Lefel 2 a 3 i
**300+**
o ddysgwyr

***'Mae Chwarae Cymru yn gorff anllywodraethol llawn ffocws sy'n canolbwyntio ar bolisi.'***

Dosbarthwyd
**3500**
llyfr stori hawl i chwarae i deuluoedd, llyfrgelloedd a chanolfannau iechyd ledled Cymru

Cyhoeddwyd a dosbarthwyd yn helaeth:
- **1** llyfr stori
- **1** awgrymiadau anhygoel
- **2** pecyn cymorth
- **3** taflen friffio
- **6** taflen wybodaeth

Adolygwyd **22** o gynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol

**3350**
o bobl sydd â diddordeb mewn chwarae plant wedi derbyn newyddion a gwybodaeth yn rheolaidd




# Am Chwarae Cymru

## Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant.

**Ein gweledigaeth**: Dyfodol ble caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod.

**Ein cennad**: Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar a phledio achos hawl pob plentyn i chwarae.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae ac i hybu arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman ble y gallai plant chwarae. Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pob un sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer, chwarae plant fel y bydd Cymru, un dydd, yn wlad ble rydym yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

Ers mis Hydref 2014 (hyd fis Mawrth 2020), mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- **Polisi**: i weithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygiad polisi a materion sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru
- **Gwasanaeth gwybodaeth**: i hybu gwerth chwarae plant yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol ac amserol i'n rhanddeiliaid
- **Cyngor a chefnogaeth**: i ddarparu gwybodaeth arbenigol ynghylch pob mater sy'n ymwneud â, ac sy'n effeithio ar chwarae plant
- **Datblygu'r gweithlu**: i gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

# Crynodeb o gyflawniadau 2018 - 2019

## Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

**Rydym yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i gefnogi gweithrediad y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae, a osodwyd ar awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.**

**Mae Chwarae Cymru wedi:**

- Comisiynu ymchwil i archwilio'r hyn sydd wedi digwydd a chanfyddiadau o newidiadau ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn 2012.
- Hwyluso naw cyfarfod rhanbarthol ar gyfer Arweinyddion Digonolrwydd Chwarae.
- Cynnal adolygiad o adroddiadau cynnydd a chynlluniau gweithredu asesiadau digonolrwydd chwarae awdurdodau lleol.
- Darparu papur briffio ffyrdd mwy diogel i blant ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i hysbysu'r ddadl fer ar derfyn cyflymder cenedlaethol o 20mya.
- Cynnal ymarfer cwmpasu newyn gwyliau gydag aelodau o'n rhwydwaith datblygu chwarae a digonolrwydd chwarae. Hysbysodd hwn y Peilot Gwaith Chwarae Newyn Gwyliau.
- Trosglwyddo pedwar cyfarfod Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC) - gan gefnogi dialog rhwng cyflogwyr gwaith chwarae, sefydliadau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymwysterau Cymru a SkillsActive.
- Parhau i weithio i gamau gweithredu a geir yn *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, cynllun Chwarae Cymru ar gyfer datblygiad parhaus y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.
- Cynorthwyo i drosglwyddo dwy gynhadledd ranbarthol yng ngogledd Cymru wedi eu hanelu at flaenoriaethau mewn Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Chwarae lleol: Bywyd Gartref a Bywyd Ysgol.
- Cyfrannu at yr adolygiad o raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant Llywodraeth Cymru. Y gobaith yw y bydd y sector gwaith chwarae'n cael gwell defnydd o'r cyllid yma o ganlyniad i'r adolygiad.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ystod eang o weithgarwch, yn cynnwys: datblygu a drafftio *Cyd-ddatganiad ar Chwarae Plant*, trosglwyddo dwy gynhadledd Chwarae ac Iechyd Cyhoeddus, trosglwyddo cyflwyniadau mewn pedair sioe deithiol cynaliadwyedd a drefnwyd gan Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Gynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Ymateb i chwech o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.
- Datblygu a lansio ymgyrch a gwefan *Plentyndod Chwareus*. Yn ogystal â helpu rhieni, mae wedi ei anelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â theuluoedd i gynnig syniadau ymarferol ar gyfer rhoi digonedd o gyfleoedd da i blant chwarae.

*'Diolch ichi, rydych yn gwneud gwaith gwych yn lobïo, yn ymgyrchu dros hawl plant i chwarae.'*
**Swyddog Prosiect Chwarae**

*'Mae Chwarae Cymru'n bwysig i ddatblygiad chwarae yng Nghymru fel grŵp lobïo ar lefel strategol a thrwy adroddiadau a gwybodaeth a ddarperir sy'n helpu i sicrhau gweithlu chwarae o safon yng Nghymru.'*
**Swyddog Chwarae**

# Ymgysylltu

**135,000 YMWELIAD**

**40,500 DEFNYDDIWR**

## Gwefan

Mae ein gwefan wrth galon Gwasanaeth Gwybodaeth Chwarae Cymru. Caiff ei diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth amserol a pherthnasol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynulleidfa sylweddol yn ymweld â'r wefan – gan ddenu, rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019:

- 135,000 ymweliad
- 40,500 defnyddiwr

> *'Mae'r gefnogaeth y mae Chwarae Cymru'n ei ddarparu o ran y wybodaeth, yr adnoddau ar-lein, rhwydweithio a hyfforddiant yn darparu sail gadarn ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar draws y sir, ar lefel strategol ac ar gyfer gweithwyr chwarae. Mae Chwarae Cymru'n cyfrannu tuag at sicrhau profiadau chwarae o ansawdd gwell.'*
> **Asesiad Digonolrwydd Chwarae awdurdod lleol**

### Arolwg Gwerthuso Chwarae Cymru

Pan ofynnon ni 'Sut mae cefnogaeth Chwarae Cymru wedi cyfrannu at eich gallu chi / gallu eich sefydliad i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer chwarae plant?' dyma oedd yr ymateb.

**TRI ATEB UCHAF**

| | |
|---|---|
| Derbyn y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau ymchwil | 84% |
| Cyrchu deunyddiau ac adnoddau trwy gyhoeddiadau Chwarae Cymru | 61% |
| Cynnydd yn ansawdd y profiadau chwarae ar gyfer y plant | 43% |

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r niferoedd sy'n dilyn cyfryngau cymdeithasol dwyieithog Chwarae Cymru'n tyfu'n ddyddiol ac maent yn denu mwy o gyfranogaeth o blith cynulleidfa amrywiol, eang yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

**Facebook**
3,649 yn hoffi

**Twitter**
6,097 o ddilynwyr

## Y diweddaraf drwy e-bost

Rydym yn sicrhau bod ein cefnogwyr, oddeutu 3,350 o dderbynwyr sydd â diddordeb uniongyrchol mewn chwarae plant, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf e-byst yn rheolaidd sy'n cynnwys gwybodaeth gyfredol, yn cynnwys:

- Digwyddiadau sydd ar y gweill
- Y newyddion diweddaraf
- Cyhoeddiadau newydd Chwarae Cymru
- Ymgynghoriadau
- Gwybodaeth polisi.

# Cyhoeddiadau




**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu a dosbarthu amrywiaeth o gyhoeddiadau i gynorthwyo i hysbysu'r rhai sydd â diddordeb mewn neu gyfrifoldeb am chwarae plant. Mae llawer wedi eu lawrlwytho oddi ar ein gwefan ac maent wedi eu rhannu'n helaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol.**

## Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*


**Fe'i cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn a'i ddosbarthu ar ffurf papur ac yn electronig i oddeutu 3,350 o ddarllenwyr.**

Hydref 2018
Mae'r rhifyn **Dathlu'r hawl i chwarae** yn cynnwys:




- Hyrwyddo'r hawl i chwarae – esiamplau o Gymru
- Adolygiad plant o lyfr stori *Hwyl yn y dwnjwn*
- Plant a phlant yn eu harddegau yn galw am fwy o gyfleoedd ac amgylchiadau mwy diogel i chwarae
- Hawl plant a phobl ifanc i chwarae mewn mannau cyhoeddus.

Gwanwyn 2019
Mae'r rhifyn **Chwarae mewn ysgolion** yn cynnwys:




- Amser, lle a chaniatâd i chwarae yn yr ysgol
- Chwarae rhannau rhydd yn Ysgol Gynradd Mount Stuart
- Hawliau chwarae ac addysg: creu cysylltiadau
- Cyfweliad gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AC.

## Pecynnau cymorth

***Agor strydoedd ar gyfer chwarae*** – i ddarparu gwybodaeth glir a chryno am brosiectau chwarae stryd ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth fydd yn helpu i ddeall a mynd i'r afael â materion o bwys ac mae'n cynnwys templedi ac offer bob yn gam, ymarferol i helpu i chwarae stryd ddigwydd.

***Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd*** – canllaw bob yn gam ar gyfer trefnu sesiynau chwarae ar y stryd, yn seiliedig ar brofiad rhieni a thrigolion ledled y DU. Mae hwn yn fersiwn o ganllaw Playing Out ar gyfer trigolion yng Nghymru.

## Taflenni gwybodaeth

- ***Canllaw gweithiwr chwarae i risg***
- ***Ysbrydoli dysgwyr – sut i fod yn hyfforddwr mwy effeithiol***
- ***Mae plant hŷn yn chwarae hefyd***
- ***Defnydd ymarferol o ddyfeisiadau digidol mewn lleoliadau chwarae***
- ***Arfer myfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig?***
- ***Chwilio am ddeunyddiau ar gyfer chwarae plant.***

## Awgrymiadau anhygoel

Fe gyhoeddom un daflen awgrymiadau anhygoel ar gyfer gweithwyr chwarae a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant: *Awgrymiadau anhygoel ar gyfer arfer myfyriol.*

## Ffocws ar chwarae

Fe gyhoeddom dri rhifyn, gyda phob un wedi ei anelu at gynulleidfa broffesiynol benodol:

- ***Chwarae ac addysg***
- ***Chwarae a chynllunio gwlad a thref***
- ***Chwarae a thrafnidiaeth***.




# Gweithwyr proffesiynol hyddysg

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r gweithlu chwarae fel 'unrhyw un cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio' (*Cymru, gwlad lle mae cyfle i chwarae*, 2014).

Mae'r gweithlu chwarae'n cynnwys gweithwyr chwarae ond mae hefyd yn cynnwys ystod eang iawn o weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion, adrannau cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth, iechyd a diogelwch a gofal plant, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau tref a chymuned ac aelodau etholedig.

**Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y gweithlu chwarae'n cael cyfle i gryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael mwy a mwy o gyfleoedd i chwarae.**

## Trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae

Mae galw cynyddol, parhaus am gymwysterau gwaith chwarae gyda lleoliadau gofal plant a sectorau eraill hefyd yn sylweddoli gwerth deall agwedd gwaith chwarae. Mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) yn profi i fod yn gymhwyster trawsnewidiol gyda dysgwyr yn dod o gefndiroedd gwaith ieuenctid, datblygu chwarae, dysgu a datblygu cymunedol.

Rydym wedi gweithio gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales (AOC) i ddynodi ariannu ar gyfer trosglwyddiad cynaliadwy cymwysterau gwaith chwarae. Yn ystod dau dymor cyntaf blwyddyn academaidd 2018/19, trosglwyddodd AOC 38 o gyrsiau gwaith chwarae i dros 300 o ddysgwyr.

*'Roedd y cwrs yn wych ac wedi ei drosglwyddo'n dda – dwi wedi argymell y cwrs i eraill oherwydd ei fod yn grêt.'*

**Dysgwr L2APP**

*'Fe ddes i mewn ddim yn credu y byddwn yn dysgu llawer mwy nag oeddwn yn ei wybod eisoes o fy mhrofiad blaenorol. Rwyf yn gadael wedi dysgu cryn dipyn am weithio mewn cynllun chwarae ac am hawliau / deddfwriaeth penodol nad oeddwn yn ei wybod o'r blaen. Cwrs buddiol iawn i mi ac rwy'n credu y bydd yn fy helpu mewn swyddi eraill i'r dyfodol yng Nghymru.'*

**Dysgwr L2APP**

Rydym yn gweithio gydag AOC ac Agored Cymru i adolygu cymwysterau Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith ($P^3$). Bydd y cymwysterau newydd yn cynnig llwybr cynnydd eglur a mwy cymesur ar gyfer gweithwyr chwarae gan gychwyn gydag L2APP a symud ymlaen i Dystysgrif Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith a Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith.

## Dyfarniad mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig

Rydym wedi gweithio gydag AOC i drosglwyddo Dyfarniad Lefel 3 Agored Cymru mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT) i 10 o ddysgwyr. Mae hyn yn cynyddu'r seilwaith o hyfforddwyr gwaith chwarae yng Nghymru i drosglwyddo cymwysterau L2APP, Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS) a $P^3$.

Mae'r cwrs hwn yn darparu ffordd fwy cynaliadwy ar gyfer cynyddu sgiliau tiwtoriaid gwaith chwarae ac i ddarparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru sydd am gynyddu sgiliau eu tiwtoriaid gwaith chwarae.

*'Cwrs rhagorol, rhyngweithiol dros ben, llawer o dechnegau a strategaethau newydd.'*

**Dysgwr ADDaPT**

## Newidiadau i gymwysterau gofal plant

I gefnogi'r newidiadau i gymwysterau gofal plant yng Nghymru, fe weithiom gyda Chymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddatblygu'r cymwysterau cyfyngedig newydd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD).

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom gefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o gynadleddau, seminarau a chyfleoedd DPP ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, gan gynnwys:

- **Symposiwm Chwarae'r Pedair Gwlad** – daeth 60 o arweinyddion a llunwyr polisïau o'r sector chwarae plant yn Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr a Chymru ynghyd i rannu arfer gorau ac i ddysgu oddi wrth brofiadau pob gwlad o lunio polisïau a gweithredu strategol.

  *'Diddorol clywed yr hyn sy'n digwydd ym mhob gwlad a ble y gallwn gydweithio mwy.'*

- **Fforwm Gweithwyr Chwarae 2018** – mynychodd 43 o gyfranogwyr y digwyddiad deuddydd yma a roddodd y cyfle i staff o feysydd chwarae antur a phrosiectau chwarae rannu arfer dda a dysgu a datblygu sgiliau ymarferol i gefnogi plant sy'n chwarae.

  *'Dyma fy nhro cyntaf. Roeddwn wrth fy modd. Rydych yn gwneud gwaith gwych, daliwch ati.'*

- **Tuag at ddigonolrwydd chwarae: gwneud synnwyr o'r ymchwil** – cynhadledd i rannu canfyddiadau ystod eang o waith ymchwil sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd digonolrwydd chwarae yng Nghymru. Daeth 68 o gyfranogwyr, gan gynnwys swyddogion arweiniol digonolrwydd cyfleodd chwarae a mudiadau chwarae gwirfoddol, ynghyd i archwilio rôl yr oedolyn ac effaith dylunio gofodol ar chwarae plant.

  *'Roedd pob un o'r siaradwyr yn wych. Roedd y cynnwys yn wych ac yn ddysg gwerthfawr.'*

- **Seminarau strydoedd sy'n gyfeillgar at blant** – mewn tair seminar ranbarthol, cyflwynwyd 60 o gyfranogwyr o awdurdodau lleol a sefydliadau partner i'n pecyn cymorth *Agor strydoedd ar gyfer chwarae*. Rhannodd y seminarau arfer gorau ar gyfer awdurdodau lleol ac archwilio sut i gefnogi chwarae stryd ar lawr gwlad.

  *'Siaradwyr gwych – profiadol a gwybodus iawn. Roedd yr enghreifftiau a'r myfyrdod ar fentrau blaenorol / cyfredol yn wirioneddol ddefnyddiol.'*

- **Cynadleddau chwarae ac iechyd cyhoeddus** (canolbarth Cymru a gorllewin Cymru) – fe weithiom mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i drosglwyddo'r ddwy gynhadledd. Wedi eu mynychu gan 67 o gyfranogwyr, canolbwyntiodd y digwyddiadau rhanbarthol hyn ar sut y mae gallu plant i gael amser a lle i chwarae yn fater iechyd cyhoeddus allweddol. Treuliodd cyfranogwyr y dydd yn ystyried beth allan nhw, fel ymarferwyr iechyd, ei wneud i gefnogi'r agenda hon.

  *'Wedi ei drosglwyddo'n dda, hoff iawn o'r ffaith ei fod yn seiliedig ar drafodaethau'n bennaf. Roedd y siaradwyr yn eglur, â ffocws da ac yn gyfeillgar.'*

## Cydweithredu academaidd

- **Ar agor bob awr: ymchwilio chwarae, hawliau ac ymgysylltu cymunedol ar diroedd ysgol**
  Aeth partneriaeth ymchwil a oedd eisoes wedi ei sefydlu gydag Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol (tîm Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar Prifysgol Metropolitan Caerdydd) ac Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ati i beilota ac astudio pecyn cymorth Chwarae Cymru, *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu*. Gyda'r bartneriaeth mae Chwarae Cymru yn awdur ar y cyd ar y canlynol:

  - Mae'r bennod 'Embedding Families and Communities' a gyhoeddwyd yn *Rethinking Play as Pedagogy* yn adrodd bod cynyddu hygyrchedd a defnydd tiroedd ysgol yn galluogi i fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli gael profiadau unigryw i ymgysylltu a rhyngweithio gyda rhieni ac aelodau'r gymuned.

  - Mae'r papur 'Power, rights and play: control of play in school grounds, an action research project from Wales' a gyhoeddwyd yn *Education 3-13 International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education* yn canolbwyntio ar rôl rheolaeth, grym, a phobl wrth ddefnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae.



## Ymholiadau gan y cyhoedd

Yn ogystal â'r gronfa eang o wybodaeth a ddarperir trwy ein gwefan, rydym wedi derbyn ac ymateb i amrywiaeth eang o ymholiadau dros y ffôn, drwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost oddi wrth rieni, aelodau etholedig, dysgwyr, ysgolion a mudiadau bychain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ymholiadau y gwnaethom ymateb iddynt trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio'n cynnwys:

- Cymwysterau addas ar gyfer lleoedd chwarae a gofal plant sydd wedi eu cofrestru â Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cyngor ariannu ar gyfer prynu offer chwarae a datblygu ardaloedd chwarae mewn cymunedau
- Cymwysterau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg cynllun chwarae
- Dysgwyr sydd am ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, a chymwysterau Lefel 3 yn benodol
- Ymholiadau ymchwil oddi wrth fyfyrwyr astudiaethau plentyndod a gwaith chwarae
- Cyngor ariannu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae
- Cefnogaeth ar gyfer achub caeau chwarae ysgolion
- Cyngor ar lain o dir neu ofod chwarae (fel arfer oddi wrth gymdeithasau tai)
- Hysbysebu swyddi, yn arbennig cynlluniau chwarae haf
- Llythyrau o gefnogaeth i gymunedau sy'n ymgyrchu am ardaloedd chwarae ac ar gyfer ceisiadau ariannu.

**Adolygir yr ymholiadau hyn yn rheolaidd a'u defnyddio i hysbysu ychwanegu gwybodaeth newydd i'n gwefan**

## Sicrhau ansawdd

Mae Chwarae Cymru'n falch o fod wedi derbyn Marc Safon Lefel 1 System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach (PQASSO). Mae hyn yn dilyn proses drylwyr gan y tîm staff a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i hunan-arfarnu, gwella ac yna pasio asesiad allanol.

NOD ANSAWDD PQASSO QUALITY MARK LEFEL LEVEL 1 NCVO

Mae PQASSO yn gynllun sicrhau ansawdd ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Er mwyn help mudiadau i gael eu rhedeg yn fwy effeithiol ac effeithlon, mae'n mesur perfformiad mewn ystod eang o feysydd ansawdd yn cynnwys llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth, a chanlyniadau.

Trwy ennill Marc Safon Lefel 1 PQASSO, rydym wedi llwyddo i arddangos rhinweddau megis: llywodraethu effeithiol a chyfrifol, rheolaeth ariannol gref a chreu perthnasau da gyda sefydliadau eraill.

*'Mae Chwarae Cymru wedi arddangos lefel drawiadol o gyflawniad ar draws pob un o feysydd ansawdd PQASSO. Dangosodd y cyfarwyddwr a'r staff ymrwymiad llwyr i gennad, gwerthoedd a nodau'r mudiad a gwelwyd eu bod yn dîm abl, profiadol iawn a llawn ysgogiad. Mae'r llywodraethu'n rhagorol – dyma un o wir gryfderau'r mudiad ym mhob agwedd. Fe wnaeth Chwarae Cymru hefyd daro'r nod uchaf am ddarparu croeso cynnes, cyfeillgar gan sicrhau bod yr ymweliad safle hwn yn un o'r rhai mwyaf cofiadwy i'r Asesydd, a hynny am yr holl resymau cywir.'*

**Asesydd PQASSO**

# Cydweithredu'n lleol ac yn genedlaethol

### Cynhadledd Bywyd Ysgol Sir y Fflint

Fe weithiom mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint i ddylunio a throsglwyddo cynhadledd yn canolbwyntio ar chwarae mewn ysgolion. Fe wnaeth ddwyn ynghyd nifer o randdeiliaid a siaradwyr gyda phrofiad o ac arbenigedd mewn darparu ar gyfer chwarae mewn ysgolion.

*'Roedd y cynnwys yn llawn gwybodaeth ac fe wnaeth ein galluogi i gydweithio fel grŵp a rhannu trafodaethau a syniadau.'*

**Cyfranogwr y gynhadledd**

### Cefnogi chwarae stryd yng Nghaerdydd

Fe wnaethom gefnogi Cyngor Caerdydd a chymunedau lleol i hwyluso trigolion i gau strydoedd ar gyfer chwarae. Ariannwyd y gwaith hwn gan grant Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm.

*'Heb gefnogaeth a chyfoeth gwybodaeth Chwarae Cymru, fyddai'r sesiynau hyn erioed wedi cychwyn. Wedi siarad gyda theuluoedd yn y stryd, roedd y neges yn syml – roedd teuluoedd yn pryderu ynghylch diogelwch o ran ceir fyddai'n defnyddio'r stryd yn rheolaidd fel llwybr tarw.'*

**Rhiant ac ysgogydd chwarae stryd**

### Canllaw cymunedau chwareus Wrecsam

Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth gyda Thîm Chwarae a Chefnogi Ieuenctid Cyngor Sir Wrecsam i ddatblygu canllaw sy'n amlinellu'r hyn ellir ei wneud i wneud cymunedau'n fwy chwareus. Mae'r canllaw yn nodi nifer o rwystrau er mwyn sicrhau bod plant yn cael digon o amser, lle a chaniatâd i chwarae yn eu cymuned.

### Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn dilyn gweithio partneriaeth llwyddiannus yn 2017 ar ystod eang o weithgarwch, fe'n comisiynwyd i ddrafftio, ar y cyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Gyd-ddatganiad ar Chwarae Plant*. Rydym hefyd yn dal i gefnogi a hyrwyddo eu hymgyrch Pob Plentyn Cymru. Mae cam chwech yr ymgyrch newid cymdeithasol yn canolbwyntio ar chwarae'r tu allan, gyda'r uchelgais y rhoddir cyfle i bob plentyn chwarae'r tu allan bob dydd.

### Cronfa Iach ac Egnïol (HAF)

Fe weithiom ar y cyd gyda amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu cynllun busnes a chais ariannu ar gyfer prosiect Iach ac Egnïol i ddatblygu a gweithredu peilot Llysgenhadon Chwarae Cymunedol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. I ddatblygu'r prosiect, rydym wedi gweithio gyda: Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, Gwasanaethau Chwarae Plant Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Re-create a Thîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae Cyngor Bro Morgannwg.

### Diwrnod Chwarae

Dathliad blynyddol y DU o hawl plant i chwarae. Fe'i cydlynir gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Rydym yn cynrychioli Cymru ar Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae sy'n cydlynu'r ymgyrch flynyddol. Yn Chwarae Cymru rydym yn ystyried Diwrnod Chwarae fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae plant a'r angen am ddarpariaeth chwarae o safon bob dydd o'r flwyddyn ym mhob ardal o Gymru.

## Cynulleidfaoedd newydd

Plentyndod Chwareus




Fel rhan o'n gwaith cynyddol i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr fe wnaethom ddatblygu a lansio ymgyrch newydd ym mis Medi 2018. Mae ymgyrch *Plentyndod Chwareus* yn cynnwys gwefan sydd yn anelu i helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi digonedd o gyfleoedd chwarae da i blant. Mae'r wefan hefyd yn ddefnyddiol i grwpiau lleol a chynghorau tref a chymunedol i gynnig cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn eu hardaloedd. Gall yr adnoddau hefyd gael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol yn eu gwaith â phlant a theuluoedd. Mae'r wefan yn cynnig:

- Syniadau ymarferol am roi amser, lle a phethau i chwarae gyda nhw
- Awgrymiadau anhygoel, canllawiau 'sut i' a syniadau ar gyfer chwarae plant
- Gwybodaeth am gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae
- Canllawiau ar gyfer cynllunio ardal chwarae cymunedol
- Esiamplau o gymunedau a phrosiectau chwareus
- Dolenni i wybodaeth am gyfleoedd chwarae sydd ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru
- Blog sy'n cynnwys erthyglau rheolaidd gan westai arbennig a'r wybodaeth ddiweddaraf am chwarae plant.

Fe wnaethom hefyd drosglwyddo saith sioe deithiol *Plentyndod Chwareus* ledled Cymru. Yn y digwyddiadau hyn fe wnaethom gwrdd â dros 1,000 o deuluoedd dderbyniodd fagiau rhodd Hawl i Chwarae, oedd yn cynnwys syniadau a chymorth ymarferol i gefnogi rhieni a gofalwyr i ddarparu amser, lle a chefnogaeth i'w plant chwarae gartref ac allan yn y gymuned.

***Hwyl yn y dwnjwn*** – llyfr stori am hawl plant i chwarae. Mae'r llyfr ar gyfer plant cynradd a'u rhieni. Mae'n anelu i alluogi plant i fod yn eiriolwyr fel dalwyr hawliau a rhieni i eiriol dros chwarae'n lleol.

Fe weithiodd Chwarae Cymru gyda storïwr, cartwnydd, a phlant a rhieni Ysgol Gynradd Mount Stuart yng Nghaerdydd i ysgrifennu *Hwyl yn y dwnjwn*.

Trwy gyfres o weithdai, fe gefnogodd y storïwr grŵp o blant a rhieni i ddynodi rhai o'r heriau yr oedden nhw wedi eu profi gyda chwarae, yn ogystal â rhai o'r profiadau chwarae positif yr oedden nhw wedi eu mwynhau. Gyda'i gilydd fe wnaethon nhw greu geiriau a delweddau'r stori. Fe dynnodd y plant luniau o wahanol fathau o chwarae, wnaeth ysbrydoli'r cartwnydd a helpu i ddod â'r stori'n fyw.

Fe wnaethom ddosbarthu 3,500 o gopïau o'r llyfr stori i deuluoedd yn ogystal ag i sefydliadau partner a phob llyfrgell gyhoeddus a meddygfa a chanolfan feddygol ar draws Cymru.

> *'Pan fydd plant yn codi'r llyfr hwn y peth cyntaf fydd wrth eu bodd yw'r lluniau oherwydd eu bod nhw mor drawiadol a doniol! Mae'n hawdd i'w ddeall a bydd llawer o blant o wahanol oed a gallu yn medru ei ddarllen yn uchel.'*
>
> **Dosbarth Afan HR6,**
> **Ysgol Gynradd Charles Williams**

# Partneriaid

Yn ogystal â chefnogi trosglwyddo rhaglenni Llywodraeth Cymru, yn ystod 2018-2019 rydym wedi gweithio mewn partneriaeth / cydweithrediad â'r mudiadau a grwpiau canlynol ar brosiectau penodol:

- Grŵp Arbenigol Plant Egnïol Iach Cymru
- Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
- Agored Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Cymru (CVSC)
- Children's Play Policy Forum
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cowshed Communication
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Early Years Workforce Network
- Education and Training Standards (ETS)
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Grŵp Monitro CCUHP Cymru
- HAPPEN – Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- International Play Association (IPA)
- International Play Association EWNI (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)
- Learning through Landscapes
- PETC Cymru
- Petra Publishing (prosiect Caerphilly Parent Network)
- Play England
- Play Safety Forum
- Play Scotland
- PlayBoard Northern Ireland
- Playday
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Manceinion
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Swydd Gaerloyw
- Primary School Network
- Pwyllgor Charity Comms Wales
- Qualifications Standards Advisory Group (QSAG)
- Re-create
- Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru
- Scottish Qualifications Authority (SQA)
- SkillsActive
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Ysgol Gynradd Mount Stuart.

# Aelodaeth

Mae Chwarae Cymru yn fudiad i aelodau.

Gofynnir i bob aelod sy'n ymuno, i ymrwymo i'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a Pholisi Chwarae Llywodraeth Cymru.

Yn 2018-2019 roedd gennym 93 o aelodau, yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Cynghorau tref a chymuned
- Prifysgolion a cholegau
- Cymdeithasau chwarae lleol a rhanbarthol
- Clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, cynlluniau chwarae gwyliau'r ysgol a meithrinfeydd
- Cwmnïau masnachol
- Mudiadau cenedlaethol yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- Unigolion fel gweithwyr chwarae, hyfforddwyr gwaith chwarae, athrawon a darlithwyr.

Mae **aelodaeth gyswllt** yn agored i bob mudiad ac unigolyn sy'n byw yng Nghymru.

Mae **aelodaeth gyswllt ryngwladol** yn agored i unrhyw fudiad neu unigolyn sy'n byw neu'n gweithio'r tu allan i Gymru hoffai gefnogi gwaith Chwarae Cymru. Ceir cyfyngiadau ar y buddiannau aelodaeth oherwydd ein bod fel elusen wedi ein cofrestru i weithio er budd trigolion Cymru.

Yn 2017-2018 fe wnaeth ein haelodau elwa trwy dderbyn:

- Hysbysiadau ynghylch ymgynghoriadau allweddol a thrwy gyfrannu eu mewnbwn hwy i'n hymatebion
- Gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau ac ymchwil newydd
- Pris gostyngedig i gyfranogwyr yn ein digwyddiadau
- Cludiant am ddim wrth brynu ein cyhoeddiadau.



*'Mae bod yn aelod wedi fy helpu yn fy ngwaith proffesiynol fy hun, trwy ddysgu oddi wrth y trwch o wybodaeth a ddosberthir gan Chwarae Cymru trwy ei gylchgrawn, taflenni gwybodaeth a digwyddiadau.'*
**Ymgynghorydd Chwarae**

*'Y prif beth yr ydw i'n ei gael o aelodaeth Chwarae Cymru yw cefnogaeth, mae rhywun ar ben arall y ffôn bob amser os ydw i am drafod pethau. Mae eu deunyddiau, taflenni briffio a chylchgronau wedi bod yn hynod o ddefnyddiol wrth eiriol dros chwarae gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.'*
**Swyddog Chwarae**

| | |
|---|---|
| **Unigol** | **£10** |
| **Sefydliadau** (un, neu lai, o aelodau llawn amser o staff) | **£25** |
| **Rhyngwladol** (y tu allan i Gymru) | **£25** |
| **Sefydliadau** (mwy nag un aelod llawn amser o staff) | **£50** |
| **Masnachol / preifat** | **£75** |
| **Awdurdod lleol** | **£100** |

*‘Mae aelodaeth Chwarae Cymru’n bwysig i mi oherwydd mae’r wybodaeth a geir mewn cyhoeddiadau ac ar y wefan yw’r wybodaeth ddiweddaraf a’r hyn sydd fwyaf perthnasol i’n sefydliad ni. Mae Chwarae Cymru’n darparu gwybodaeth imi am yr ymchwil diweddaraf, syniadau a meddyliau newydd ac mae bob amser yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant. Mae cael cefnogaeth ar gyfer maes gwaith sydd mor bwysig, ond sydd wedi ei danariannu gymaint, yn galonogol a gobeithiol dros ben ac, yn bwysig iawn, mae statws chwarae plant yng Nghymru’n rhoi gobaith inni ar gyfer y dyfodol.’*

**Ymgynghorydd Gwaith Chwarae**



# Cyflawniadau: 1998 - 2019

**Ers 1998 mae Chwarae Cymru wedi eiriol ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros chwarae, ac wedi annog a chefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymiadau cwbl arloesol ar ran plant.**

## Rhagor o gyllid ar gyfer chwarae plant

- Yn 2000, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru, dosbarthodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grant Chwarae o £1 filiwn i greu darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio. Er mai'r bwriad yn wreiddiol oedd i'r ariannu yma fod ar gael am flwyddyn yn unig, parhaodd y grant fel elfen o gyllid grant gwahanol yn y blynyddoedd ers hynny.
- Yn 2006, derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb tair blynedd ar gyfer helpu i drosglwyddo rhaglen Chwarae Plant £13 miliwn Cronfa'r Loteri FAWR, i gefnogi cynyddu cynhwysedd a phrosiectau chwarae strategol yng Nghymru.
- Yn ddiweddarach, cefnogodd Chwarae Cymru awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o ariannu oedd ar gael trwy'r Grant Cynyddu Cyfleoedd i Chwarae yn 2014, 2015, 2017, 2018 a 2019.

## Cydnabyddiaeth genedlaethol gynyddol i chwarae

- Cynorthwyodd Chwarae Cymru Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu *Polisi Chwarae* 2002 – y cyntaf yn y byd. Yn ogystal, cynorthwyodd Chwarae Cymru gyda'r gwaith o ddatblygu *Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae* Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006).
- Yn 2012, deddfodd Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae plant. Mae cyfleoedd chwarae wedi eu cynnwys ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol'. Trwy ymateb i ymgynghoriadau, cynorthwyodd ein haelodau i sicrhau bod pwysigrwydd chwarae â man amlwg yn y ddeddfwriaeth Gymreig arloesol yma. Elfen arloesol arall – mae'n bosibl mai dyma'r datblygiad pwysicaf i ddigwydd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru.
- Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Mae Chwarae Cymru wedi parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i bob rhanddeiliad o ran gweithredu'r cyfarwyddyd yma.
- Yn 2017 gweithiodd Chwarae Cymru'n agos gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ar raglen *Pob Plentyn Cymru* sy'n cydnabod pwysigrwydd allweddol chwarae i iechyd corfforol ac emosiynol plant.

## Gweithlu dynamig

- Datblygodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf… fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* ac *Yr Hawl Cyntaf – Prosesau Dymunol*. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn anelu i gefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant i ddadansoddi amgylcheddau chwarae ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu ansawdd yr hyn y darperir ar ei gyfer, a'i brofi gan blant.
- Arweiniodd Chwarae Cymru adolygiad y DU o'r Gwerthoedd a Rhagdybiaethau Gwaith Chwarae. Yn dilyn ymgynghoriad, mabwysiadodd y sector yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac fe'u cymeradwywyd gan SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwaith Chwarae, yn 2005. Bellach, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n ffurfio sail i'r safonau galwedigaethol ar gyfer gwaith chwarae yn y DU.
- Er mwyn datblygu arfer gwaith chwarae cyfoes, gweithiodd Chwarae Cymru gyda'r Scottish Qualifications Authority (SQA) i gynnig cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) ar Lefel 2 a 3. Er mwyn cefnogi'r hyfforddiant arloesol yma, fe wnaethom gynhyrchu deunyddiau dysgu ysbrydoledig.
- Rhwng Chwarae Cymru, Llywodraeth Cymru ac ariannu Ewropeaidd, rydym wedi buddsoddi dros £1.5 miliwn yn y gwaith o ddatblygu, peilota a throsglwyddo Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$).



- Mae Chwarae Cymru wedi parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae'n ateb anghenion y gweithlu. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys datblygu dau gymhwyster sydd wedi eu hanelu at y bobl hynny sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau – Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) a Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS) (Agored Cymru).

**Golyga hyn i gyd fod y bobl sy'n gweithio gyda'n plant wedi derbyn yr hyfforddiant gorau posibl.**

## Gwell ymwybyddiaeth o chwarae yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

- Trwy'r wefan a thrwy gyhoeddi e-fwletinau rheolaidd, cylchgronau, taflenni gwybodaeth, pecynnau cymorth, llyfrau a phosteri, mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo chwarae plant yn eang iawn. Caiff ein gwefan ei hystyried yn rhyngwladol fel un o'r rhai mwyaf effeithlon wrth gyflwyno gwybodaeth amserol am chwarae plant.
- Mae Chwarae Cymru'n darparu hyfforddiant, seminarau a chynadleddau ar gyfer pawb sy'n darparu a chefnogi chwarae plant – gan gynnwys Cynhadledd Fyd-eang 2011 yr International Play Association (IPA).
- Yn 2011, derbyniodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd, Carwyn Jones AC, Wobr Hawl i Chwarae'r IPA ar ran pob un yng Nghymru sy'n ymdrechu i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar. Cymru yw'r wlad gyntaf i dderbyn y wobr arobryn yma.
- Cefnogodd Chwarae Cymru waith yr IPA gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddrafftio a mabwysiadu Sylw Cyffredinol sy'n egluro i lywodraethau ar draws y byd ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Gweithiodd Chwarae Cymru gyda phlant Cymru i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo'r hawliau a amlinellir yn Erthygl 31 o GCUHP ar ran yr IPA i gyd-fynd â lansiad y Sylw Cyffredinol.
- Gweithiodd Chwarae Cymru gyda Phrifysgol Swydd Gaerloyw i gynhyrchu dau adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau dau brosiect ymchwil graddfa fechan, y cyntaf yn archwilio sut y bu i awdurdodau lleol ymateb i gyflwyno'r ddyletswydd i asesu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, a'r ail yn brosiect dilynol yn edrych yn ôl dros y flwyddyn flaenorol ac ymlaen at gychwyn ail ran y Ddyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant.


**Mae hyn i gyd wedi cyfrannu at weld mwy o blant yn cael amser, rhyddid a chaniatâd i chwarae. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod Cymru'n wlad ble y caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod – ychwanegwch eich llais er mwyn ein helpu i wneud mwy.**

# Adolygiad ariannol – crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2019.**

## Cyfanswm incwm £563,636

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £510,000 |
| Incwm arall | £30,555 |
| Hyfforddi'r gweithlu | £1,500 |
| Cyhoeddiadau | £8,781 |
| Aelodaeth | £450 |
| Incwm o fuddsoddiadau | £350 |
| Grant Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm | £2,500 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | £9,500 |



## Cyfanswm gwariant £593,425

| | |
|---|---|
| Polisi chwarae, cymorth ac eiriolaeth | £223,978 |
| Datblygu'r gweithlu | £131,334 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £189,088 |
| Rheolaeth | £48,414 |





# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2019 - 2020

**Bydd Chwarae Cymru'n parhau i weithio i hybu chwarae plant, i weithredu fel eiriolwr dros blant a'u hanghenion chwarae.**

**Tan fis Mawrth 2020, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

## Rydym, yn benodol, yn rhagweld y byddwn yn ymgymryd â'r canlynol:

- Parhau i drosglwyddo gwasanaeth cyfathrebu wedi ei anelu at ein etholaeth eang trwy ddarparu cyhoeddiadau â ffocws, postio uniongyrchol a gwefannau wedi eu diweddaru yn ogystal â chyfathrebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Cyfrannu at a hysbysu eiriolaeth leol, genedlaethol a rhyngwladol trwy waith prosiect ac aelodaeth o bwyllgorau a grwpiau
- Cefnogi awdurdodau lleol Cymru a sefydliadau'r drydedd sector i ymgysylltu gydag ac ymateb i bolisi cenedlaethol trwy ddigwyddiadau, hwyluso rhwydweithiau a chyngor
- Gweithredu a monitro *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, ein cynllun datblygu'r gweithlu
- Gweithio gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i sicrhau bod cyflwyniad cymwysterau P$^3$ newydd Agored Cymru yn llwyddiant ac yn parhau i ymateb i anghenion y gweithlu
- Gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo cyd-ddatganiad ar chwarae awyr agored
- Adolygu *Yr Hawl Cyntaf… fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* gyda'r bwriad o ddatblygu rhaglen sicrhau ansawdd newydd ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae
- Cynnal adolygiad o amser chwarae mewn ysgolion ar draws Cymru gyfan
- Gweithredu a throsglwyddo'r Prosiect Llysgenhadon Chwarae Cymunedol.

I sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu datblygu a'u trosglwyddo mor effeithlon â phosibl byddwn yn:

- Datblygu cynllun busnes Chwarae Cymru
- Adolygu, mireinio a gweithredu ein cynllun cynaliadwyedd.

**Ceir manylion y targedau uchod yn strategaethau diwygiedig pum mlynedd a 10 mlynedd Chwarae Cymru. Bydd gweithgareddau codi arian eraill yn ein galluogi i barhau i eiriol dros hawl plant i chwarae.**

# Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru – llywodraethu

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio rhedeg Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â'r gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Ymddiriedolwyr ond sydd yn ddibleidlais. Caiff ein Ymddiriedolwyr eu hethol gan ein haelodau, neu eu cyfethol i gynrychioli maes arbenigedd penodol.

(fel o fis Mawrth 2019)

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Dr Anne Crowley**

**Yr Athro David Egan**
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Helen Hughes**
Stephens and George Charitable Trust

**Malcolm King OBE**

**Yr Athro Ronan Lyons**
Prifysgol Cymru, Abertawe

**Dr Mike Shooter CBE (Chair)**
Seiciatrydd Ymgynghorol (wedi ymddeol)

**Keith Towler**

**Yr Athro Elspeth Webb**

## Mudiadau sy'n Sylwedyddion

**Catherine Davies**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Catriona Williams OBE**
Plant yng Nghymru

# Tîm Chwarae Cymru

(fel o fis Mawrth 2019)

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr

**Martin King-Sheard**
Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**Marianne Mannello**
Cyfarwyddwraig Gynorthwyol
(Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth)

**Kathy Muse**
Rheolwraig Swyddfa

**Ruth O'Donoghue**
Swyddog Cyllid

**Angharad Wyn Jones**
Rheolwraig Cyfathrebiadau



**www.chwaraecymru.org.uk**

Elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru